

2021 Rhif WG21-15

DEDDF Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL (CYMRU) 2006

Cyfarwyddau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gofal Iechyd Trawsffiniol) (Cymru) (Diwygio) 2021

Gwnaed

25 Mawrth 2021

Yn dod i rym yn unol â chyfarwyddyd 1(2)

Mae Gweinidogion Cymru yn rhoi'r Cyfarwyddau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 12(3), 203(9) a (10) a 204(1) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(1).

Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli

1.—(1) Enw'r Cyfarwyddau hyn yw Cyfarwyddau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gofal Iechyd Trawsffiniol) (Cymru) (Diwygio) 2021.

(2) Daw'r Cyfarwyddau hyn i rym o ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu 2021.

(3) Mae'r Cyfarwyddau hyn wedi eu rhoi i Fyrddau Iechyd Lleol ac maent yn gymwys o ran Cymru.

(4) Yn y Cyfarwyddau hyn—

ystyr “y Cyfarwyddau Trawsffiniol” (“*the Cross-Border Directions*”) yw Cyfarwyddau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gofal Iechyd Trawsffiniol) (Cymru) 2013(2);

ystyr “Deddf y GIG” (“*the NHS Act*”) yw Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006.

(1) 2006 p. 42.

(2) 2013 Rhif 26. Gwnaed y Cyfarwyddau ar 25 Hydref 2013 ac maent ar gael ar <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-07/cyfarwyddiadaur-gwasanaeth-iechyd-gwladol-gofal-iechyd-trawsffiniol-cymru-2013-2013-rhif-26.pdf>.

Darpariaeth arbed a darpariaeth drosiannol sy'n ymwneud â'r Cyfarwyddydau Trawsffiniol

2. Mae'r Cyfarwyddydau Trawsffiniol i barhau i fod yn gymwys gyda'r addasiadau a wneir gan yr Atodlen, i ddarparu gwybodaeth i gleifion y mae unrhyw un neu ragor o'r canlynol yn parhau i fod yn gymwys mewn perthynas â hwy yn rhinwedd rheoliad 15 o Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gofal Iechyd Trawsffiniol a Diwygiadau Amrywiol etc.) (Ymadael â'r UE) 2019 (achosion trawsffiniol sy'n codi cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu)(1) ac i ystyried ceisiadau a wneir gan y cleifion hynny—

- (a) adran 6A neu 6B o Ddeddf y GIG (ad-dalu costau gwasanaethau a ddarparwyd mewn Gwladwriaeth AEE ac awdurdodiad ymlaen llaw)(2);
- (b) adran 6BA neu 6BB o Ddeddf y GIG (ad-dalu cost gwasanaethau a ddarparwyd mewn Gwladwriaeth AEE pan aed i'r gwariant ar neu ar ôl 25 Hydref 2013 ac awdurdodiad ymlaen llaw)(3);
- (c) Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gofal Iechyd Trawsffiniol) 2013(4).

Enw,

Sioned Rees, Dirprwy Cyfarwyddwr, Llywodraeth Cymru, o dan awdurdod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

Dyddiad: 25 Mawrth 2021

(1) O.S. 2019/777 fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2020/1348.
(2) Mewnosodwyd adrannau 6A a 6B gan O.S. 2010/915 ac fe'u hepgorwyd gan O.S. 2019/777, yn ddarostyngedig i ddarpariaeth arbed a darpariaeth drosiannol.
(3) Mewnosodwyd adrannau 6BA a 6BB gan O.S. 2013/2269 ac fe'u hepgorwyd gan O.S. 2019/777, yn ddarostyngedig i ddarpariaeth arbed a darpariaeth drosiannol.
(4) O.S. 2013/2269; fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2015/139 ac O.S. 2015/238 ac fel y'i dirymwyd gan O.S. 2019/777, yn ddarostyngedig i ddarpariaeth arbed a darpariaeth drosiannol.

YR ATODLEN Cyfarwyddyd 2

Achosion trawsffiniol sy'n codi cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu

1. Mae'r Cyfarwyddydau Trawsffiniol i'w darllen fel pe bai—

- (a) y canlynol wedi ei roi yn lle cyfarwyddyd 1(3) (cymhwyso, cychwyn a dehongli)—

“(3) These Directions apply to the provision of information to, and consideration of applications made in the exercise of the rights and entitlements mentioned in the Directive, by resident patients in relation to whom any of the following continue to apply by virtue of regulation 15 of the National Health Service (Cross-Border Healthcare and Miscellaneous Amendments etc.) (EU Exit) Regulations 2019—

(a) section 6A or 6B the National Health Service (Wales) Act 2006 (reimbursement of costs of services provided in an EEA state and prior authorisation);

(b) section 6BA or 6BB of the National Health Service Act 2006 (reimbursement of cost of services provided in an EEA state and prior authorisation);

(c) the National Health Service (Cross-Border Healthcare) Regulations 2013.”;

- (b) yng nghyfarwyddyd 1(4) (cymhwyso, cychwyn a dehongli)—

(i) y canlynol wedi ei fewnosod yn y lle priodol—

““the Cross-Border Exit Regulations” means the National Health Service (Cross-Border Healthcare and Miscellaneous Amendments etc.) (EU Exit) Regulations 2019(1);”;

(ii) yn y diffiniad o “the Cross-Border Healthcare Regulations”, “as continued by regulation 15 of the Cross-Border Exit Regulations” wedi ei fewnosod ar y diwedd;

(iii) yn y diffiniad o “Regulation (EC) No 883/2004”, “insofar as it applies by virtue of Title III of Part 2 of the withdrawal agreement (co-ordination of social security systems), Title III of Part

(1) O.S. 2019/777 fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2020/1348.

2 of the EEA EFTA separation agreement or the social security co-ordination provisions of the Swiss citizens' rights agreement (co-ordination of social security systems)” wedi ei fewnosod ar y diwedd;

(iv) yn y diffiniad o “resident patient”, “immediately before implementation period completion day the United Kingdom was” wedi ei roi yn lle'r cyfeiriad at “the United Kingdom is”;

(c) y canlynol wedi ei fewnosod ar ôl cyfarwyddyd 1(4)—

“(5) In these Directions, a reference to section 6A, 6B, 6BA or 6BB of the NHS (Wales) Act is a reference to that section as continued by regulation 15 of the Cross-Border Exit Regulations.”;

(d) ym mhennawd cyfarwyddyd 4 (dyletswydd i gyhoeddi gwybodaeth am wasanaethau gofal iechyd yn ddarostyngedig i awdurdodiad ymlaen llaw), “Information” wedi ei roi yn lle “Duty to publish information”;

(e) yng nghyfarwyddyd 4(1) (dyletswydd i gyhoeddi gwybodaeth am wasanaethau gofal iechyd yn ddarostyngedig i awdurdodiad ymlaen llaw)—

(i) “make reasonable efforts to” wedi ei fewnosod ar ôl “each Local Health Board must”;

(ii) “an EEA state” wedi ei roi yn lle “another EEA state”;

(f) ym mhennawd cyfarwyddyd 5, “Information” wedi ei roi yn lle “Duty to publish information”;

(g) yng nghyfarwyddyd 5(1), “make reasonable efforts to” wedi ei fewnosod ar ôl “each Local Health Board must”;

(h) ym mhennawd cyfarwyddyd 6, “duty as to provision of” wedi ei roi yn lle “duty to provide”;

(i) yng nghyfarwyddyd 6 (dyletswydd Byrddau Iechyd Lleol i ddarparu gwybodaeth a chynghor a chymorth i gleifion)—

(i) ym mharagraff (1), “make reasonable efforts to” wedi ei fewnosod ar ôl “each Local Health Board must”;

(ii) ym mharagraff (2), “as” wedi ei fewnosod ar ôl “entitlements” a'r geiriau o “for the purpose of” hyd at y diwedd wedi eu hepgor;

(iii) ym mharagraff (3)—

- (aa) “make reasonable efforts to” wedi ei fewnosod ar ôl “The Local Health Board must”;
- (bb) “, so far as possible,” wedi ei roi yn lle “in any event”.